



Gorfodi Parcio Sifil



**NEWPORT**  
CITY COUNCIL  
CYNGOR DINAS  
**CASNEWYDD**

# #ParciwchYnGywir

Cysylltwch â Chyngor Dinas Casnewydd ag unrhyw ymholiadau

Ebost: [info@newport.gov.uk](mailto:info@newport.gov.uk)

Gwefan: [www.newport.gov.uk/gps](http://www.newport.gov.uk/gps)

Ffôn: (01633) 656656



# Beth mae GPS yn ei olygu?

Mae Gorfodi Parcio Sifil (GPS) yn golygu mai'r awdurdod lleol yn hytrach na'r heddlu sy'n gyfrifol am orfodi cyfyngiadau parcio. Bydd GPS yn weithredol drwy Gasnewydd o I Gorffennaf.

Bydd cyfyngiadau parcio yn aros yr un peth a bydd Swyddogion Gorfodi Sifil a gyflogir gan y cyngor yn gorfodi pob maes parcio oddi ar y stryd a reolir gan y cyngor, yn ogystal â chyfyngiadau parcio ar y stryd megis cynlluniau parcio i breswylwyr a llinellau melyn dwbl.

Os gwelir bod car wedi'i barcio'n anghyfreithlon, bydd y Swyddogion Gorfodi Sifil yn rhoi Hysbysiad Tâl Cosb. Bydd cyfyngiadau traffig eraill gan gynnwys parcio peryglus, rhwystro'r llwybrau troed, a throseddau traffig sy'n symud yn parhau i gael eu gorfodi gan Heddlu Gwent.

## Swyddogion Gorfodi Sifil

Bydd Cyngor Dinas Casnewydd yn cyflogi tîm o Swyddogion Gorfodi Sifil a fydd yn cael eu lleoli'n ddyddiol ar draws yr awdurdod. Bydd y swyddogion hyn yn gallu gorfodi cyfyngiadau sy'n ymwneud â pharcio ar briffyrdd cyhoeddus os yw cerbyd wedi'i barcio'n anghyfreithlon, gan gynnwys y canlynol:

- parcio ar linellau melyn
- aros yn hirach na chyfnod amser y man parcio
- parcio ar draws palmant isel
- parcio ymhellach na 50cm o ochr y palmant

Nid oes gan y Swyddogion Gorfodi Sifil yr hawl i ddileu Hysbysiad Tâl Cosb unwaith y'i rhoddir neu ystyried unrhyw amgylchiadau lliniarol, mae'n rhaid i'r rhain gael eu hystyried drwy'r broses apelio. Bydd cyfyngiadau traffig eraill yn parhau i gael eu gorfodi gan Heddlu Gwent, gan gynnwys troseddau traffig sy'n symud neu barcio peryglus.

Caiff swyddogion eu gweld yn gorfodi mewn lleoliadau lle nad oedd wardeniaid traffig wedi'u lleoli eisoes. Felly, efallai y byddwch yn derbyn Hysbysiad Tâl Cosb am barcio rhywle yr ydych wedi parcio yno'n flaenorol yn groes i'r rheolau, gan y bydd ein tîm yn gorfodi yn ddyddiol.



# Hysbysiadau Tâl Cosb

Bydd HYSBYSIAD TÂL COSB yn cael ei roi i gerbyd sydd wedi parcio yn groes i'r rheolau parcio.

Bydd yr Hysbysiad Tâl Cosb yn nodi manylion y cerbyd a'r tramgwydd a wnaed, ynghyd â lefel tâl y gosb sydd i'w dalu. Bydd y tâl a godir naill ai'n £70, yn cael ei leihau i £35 os caiff ei dalu o fewn 14 diwrnod, neu'n £50 ar gyfer troseddau parcio bach, ac yn cael ei leihau i £25 os caiff ei dalu o fewn 14 diwrnod.

Mae'r lefelau tâl hyn yn cael eu gosod gan y Llywodraeth ac mae deddfwriaeth hefyd yn ei gwneud yn ofynnol bod yr arian o'r hysbysiad tâl cosb yn cael ei ddefnyddio i dalu am y gost o weithredu'r gwasanaeth gorfodi, gydag unrhyw arian dros ben yn cael ei fuddsoddi mewn prosiectau gwella traffig. Ni fydd gan Swyddogion Gorfodi Sifil dargedau i roi nifer penodol o Hysbysiadau Tâl Cosb.

## Gellir talu HTC drwy'r ffyrdd canlynol

Drwy'r post gan ddefnyddio'r amlen a ddarperir gyda'r **HTC**

Dros y ffôn **033 33 200 867**

Drwy'r rhyngwyd yn **[www.swpg.co.uk](http://www.swpg.co.uk)**

*(Peidiwch ag anfon arian parod drwy'r post)*



# Y Broses Apelio

Os ydych yn dymuno herio Hysbysiad Tâl Cosb, dilynwch y cyfarwyddiadau sydd y tu ôl i'r hysbysiad a chyflwyno her yn ysgrifenedig. Os ydych yn gwneud hyn o fewn yr 14 diwrnod cyntaf o'i dderbyn a bod eich her yn cael ei gwrthod, bydd y gyfradd ostyngedig yn aildechrau am 14 diwrnod pellach.

Os ydych yn apelio ar ôl 14 diwrnod a bod eich her yn cael ei gwrthod, bydd y tâl llawn yn daladwy. Mae gennych 28 diwrnod i gyd i gyflwyno her ysgrifenedig o'r dyddiad y rhoddyd yr hysbysiad.

Os caiff yr apêl ei gwrthod, nid oes gan y derbynnydd (perchennog/ceidwad y cerbyd) y dewis pellach i gyflwyno apêl i ddyfarnwr annibynnol. Caiff manylion ynghylch sut i wneud hyn eu cynnwys yn yr hysbysiad penderfynu gan y cyngor.

Peidiwch ag anwybyddu Hysbysiad Tâl Cosb gan y bydd y tâl yn cynyddu os nad yw'n cael ei dalu neu os na chyflwynir her. Gall unrhyw oedi pellach arwain at gamau gweithredu gan asiantwyr gorfodi (beiliod), a chaiff eu costau eu hychwanegu at y ddyled sifil.



# Osgoi HTC

Bydd dilyn yr awgrymiadau parcio canlynol yn eich helpu i barcio mewn modd nad yw'n achosi anhwylostod i aelodau eraill o'r cyhoedd ac yn eich helpu i osgoi cael HYSBYSIAD TÂL COSB:

- Gwiriwch y llinellau ar y ffordd bob amser, ac os yw'n berthnasol, yr arwyddion ar ochr y ffordd - maent yn dweud wrthyhych pa gyfyngiadau sy'n berthnasol.
- Peidiwch â pharcio ar linellau melyn dwbl, mae hyn yn wir am lwybrau troed a'r priffyrdd.
- Peidiwch â pharcio ble mae llinellau melyn cyfyngiadau aros neu llwytho mewn grym.
- Mewn meysydd parcio talu ac arddangos, gwnewch yn siŵr eich bod yn darllen yr arwyddion bob amser a sicrhewch eich bod yn prynu'r tocyn talu ac arddangos priodol yn unol â'r cyfarwyddiadau ar yr arwyddion ac yn parcio o fewn y man parcio.
- Peidiwch ag aros yn hirach na'r hyn a ganiateir gan yr arwyddion neu gan y tocyn rydych wedi ei brynu.
- Peidiwch â rhwystro mynediadau i eiddo preifat - palmentydd isel.
- Peidiwch â dwbl-barcio.
- Peidiwch â pharcio ar groesfannau i gerddwyr neu linellau gwyn igam-ogam sy'n agos i'r groesfan.
- Peidiwch â pharcio ar linellau 'Ysgol Cadwch yn Glir' neu'r llinellau melyn igam-ogam sy'n agos i'r ysgol.
- Peidiwch â pharcio mewn manau llwytho oni bai eich bod yn llwytho/dadlwytho nwyddau.
- Peidiwch â pharcio mewn manau a gedwir i ddeiliaid bathodyn anabledd neu ddosbarthiadau penodol o gerbyd oni bai bod gennych yr hawl i wneud hynny.

# Hawl Parcio

Bydd trosglwyddo pwerau Gorfodi Sifil yn galluogi'r cyngor i sicrhau bod gyrwyr yn parcio'n gywir yng Nghasnewydd.

Mae'n ein galluogi i fynd i'r afael â materion megis tagfeydd traffig, diogelwch ar y ffordd ac i ddiogelu buddiannau preswylwyr, deiliaid bathodyn glas, cwmnïau trafndiaeth a busnesau lleol.

Bydd yn atal camddefnyddio mathau penodol o barcio megis man parcio i'r anabl, mannau llwytho, safleoedd bws a dylai helpu i leddfu tagfeydd y tu allan i ysgolion.

Pan fyddwch yn parcio, sicrhewch eich bod wedi gwneud hynny'n gywir, dylech bob amser wirio'r llinellau a'r arwyddion, neu hysbysiadau eraill yn yr ardal yr ydych yn parcio ynddi.

Bydd y rhain yn dweud wrthy'ch am unrhyw gyfyngiadau parcio ac mae Rheolau'r Ffordd Fawr yn esbonio ystyr yr arwyddion a'r llinellau.



## Ym mhle y dylwn i barcio?

Does dim newid i'r rheolau parcio fel rhan o'r GPS. Bydd tramgwyddau parcio a allai olygu eich bod yn derbyn tocyn gan yr heddlu ar hyn o bryd, yn parhau i fod yn dramgwyddau parcio unwaith y bydd GPS wedi'i gyflwyno.

Cewch ragor o wybodaeth yn: [www.newport.gov.uk/parking](http://www.newport.gov.uk/parking)

## Cynlluniau parcio i breswylwyr


Does dim newid i gynlluniau parcio i breswylwyr o ganlyniad i GPS. Bydd parcio mewn man parcio i breswlydd heb arddangos trwydded ddilys yn dal i fod yn dramgwydd parcio wedi i'r GPS gael ei gyflwyno a gallai olygu eich bod yn cael Hysbysiad Tâl Cosb.

Darllenwch am gynlluniau parcio i breswylwyr Casnewydd yn: [www.newport.gov.uk/parking](http://www.newport.gov.uk/parking)

## Deiliaid Bathodyn Glas

Nid yw GPS yn newid y rheolau ar gyfer deiliaid bathodyn glas. Gall deiliaid bathodyn glas dderbyn Hysbysiad Tâl Cosb o hyd am dramgwyddau parcio penodol, cyfeiriwch at y llyfryn canllawiau a roddwyd gyda'ch bathodyn glas am fanylion.

Darllenwch am barcio i bobl anabl yng Nghasnewydd yn: [www.newport.gov.uk/parking](http://www.newport.gov.uk/parking)



# GPS

Gorfodi Parcio Sifil

## #ParciwchYnGywir

Er mwyn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y ynlun Gorfodi Parcio Sifil yng Nghasnewydd a'n hymgyrch **#ParciwchYnGywir**, gallwch ein dilyn ar y cyfryngau cymdeithasol drwy Twitter, Facebook, neu ar dudalen GPS ein gwefan.



[www.newport.gov.uk/gps](http://www.newport.gov.uk/gps)